

## CANLLAWIAU SYSTEM GOFRESTRU CYSTADLEUWYR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD Fsn 1.1

**PWYSIG – bydd y rhaglen a’r canllawiau yn newid o dro i dro felly cofiwch ddefnyddio fersiwn diweddaraf y canllawiau fydd YN Y RHAGLEN dan y botwm CYMORTH uwchben rhestr y cystadlaethau.**

1. Wrth ddefnyddio’r system fe fydd ychydig o oedi er mwyn i’r system adweithio, felly gadewch ychydig o eiliadau er mwyn sicrhau bod y cyfan yn llwytho’n gywir. Mae cyflymder y system yn ddibynol ar eich cyswllt gwe, eich dewis o raglen pori a’r niferoedd sydd ar y system.
2. Rydym yn eich cynghori i baratoi gan sicrhau:
  - bod pawb sy’n cystadlu wedi ymaelodi â’r Urdd mewn da bryd;
  - bod manylion y cystadlaethau yn eich meddiant cyn eich dyddiad cau (e.e. cyweirnodau, darnau hunan-ddewisiadau, aelodau partiion/corau);
  - eich bod yn dechrau’r broses o gofrestru cystadleuwyr yn gynnar.
3. Mae’r drefn ychydig yn wahanol ar gyfer ambell gystadleuaeth oherwydd yr wybodaeth sydd ei hangen. Ar gyfer rhan fwyaf o gystadlaethau unigol lle mae’r testunau wedi’u dewis gan yr Urdd, fe ellir creu ac anfon ffurflenni mwy nag un cystadleuydd ar yr un pryd trwy ddewis yr aelodau.
4. Ond ar gyfer cystadlaethau gyda mwy nag un aelod ac/neu rhai hunan ddewisiad, e.e. **Offerynnol, Dawnsio Disgo**, bydd angen llenwi **un ffurflen i bob gystadleuydd/parti** trwy ddewis yr aelodau a bwydo gwybodaeth benodol am y darnau neu’r gerddoriaeth. Mae hefyd yn berthnasol i gystadlaethau **Cerdd Dant** gan fod angen gwybodaeth am y cyweirnod.
5. Os ydych yn symud eich llygoden/cyrchwr dros unrhyw fotwm/gorchymyn, fe fydd cyfarwyddiadau yn ymddangos yn esbonio'r hyn mae’r botwm yn ei wneud.
6. Os nad yw enw(au) eich aelodau ar y rhestr aelodaeth sydd yn ymddangos ar y system, mae’n debyg nad ydynt yn aelod. Er mwyn mynd i’r system aelodaeth cadwch y ffurflen i beidio colli’r wybodaeth wedyn ewch i’r tab HAFAN a dewis AELODAETH . Mae modd talu gyda cherdyn credyd a derbyn rhif aelodaeth yn syth. Neu, fe allwch gael anfoneb a thalu gyda siec ond ni fydd modd anfon eich ffurflen gystadlu Eisteddfod tan fod y tâl aelodaeth wedi’i dderbyn. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw gystadleuydd ar ôl y dyddiad cau felly gwnewch yn siŵr bod pawb wedi ymaelodi, wedi talu ac wedi derbyn rhif aelodaeth mewn da bryd.
7. O dan rai amgylchiadau, mae aelodau wedi’u cofrestru trwy gangen arall, e.e. cystadlu gyda’r Adran bentref ond wedi ymaelodi trwy’r ysgol. Mae modd i chi gynnwys yr aelodau hynny sydd wedi’u cofrestru gyda changen arall gyda’ch cangen chi. Mae’r wybodaeth yn y canllawiau hyn o dan bwynt 20.
8. **PWYSIG** Defnyddiwch yr opsiwn CADW yn lle anfon os nad yw’r wybodaeth i gyd gyda chi i orffen y ffurflen. **Bydd rhaid i chi wasgu ANFON cyn y dyddiad cau i gystadlu.**

## MEWNGOFNODI

- Y linc i'r wefan yw <http://www.urdd.cymru/eisteddfod/cystadlu> . Yna cliciwch "Cofrestru i Gystadlu".
- Unwaith i'r wefan lwytho bydd sgrin fel yr isod yn ymddangos:

Urdd Gobaith Cymru - Arweinydd Cangen - Gweinydd 1

Enw Defnyddiwr	<input type="text"/>
Cyfrinair	<input type="text"/>
<input type="button" value="Login"/> <input type="button" value="Clear"/>	

Bydd angen mewnbynnu eich Enw Defnyddiwr a Chyfrinair a phwyso "Login". **Mae'r rhain yn unigryw i bob cangen ac wedi eu rhannu gyda'r system aelodaeth ar-lein.** Os nad oes gennych yr Enw Defnyddiwr a Chyfrinair ar gyfer eich cangen, e-bostiwch [eisteddfodtechnegol@urdd.org](mailto:eisteddfodtechnegol@urdd.org) gan nodi enw eich cangen, eich enw chi a'ch swyddogaeth oddi fewn i'r gangen .

- Wedi mewngofnodi i'r system, bydd sgrin debyg i'r isod yn ymddangos.

[Allgofnodi / Logout](#)

Cymorth	HAFAN
---------	-------

ID	<b>2119</b>
Cangen	<b>Cangen Prawf i'r We</b>
Cod Post	
Rhif Ffon	
EBoSt	
Math	Ael/Adr
Cylch	Penllyn
Rhanbarth	Meirionnydd
<input type="button" value="AELODAETH"/>	
<input type="button" value="EISTEDDFOD"/>	


Gwiriwch fod y gangen yn gywir yna gwasgwch:

'AELODAETH' i ychwanegu a gweld eich Aelodaeth neu 'EISTEDDFOD' i ychwanegu a gweld eich ffurfl

Dewiswch y botwm "EISTEDDFOD" i gael mynediad i'r system gofrestru eisteddfod.

12. Wedi i chi gael mynediad i'r system, bydd sgrin debyg i'r isod yn ymddangos:

The screenshot shows a web application interface. At the top, there are navigation links: "Allgofnodi / Logout", "Cymorth", "HAFAN", and "Dewis Cysylltydd \*". Below this is a section titled "Eich Cangen:" with a tree view showing a selected group: "2119 Cangen Prawf i'r We" under "Swyddfa'r Urdd". The main content area is titled "Cysylltwyr Eisteddfod y Gangen" and contains a table with columns: "Enw Cyswllt", "Ffon Cyswllt", "Ffon Symudol", and "EBost Cyswllt". Below the table is a form with input fields and a "newydd" button. At the bottom, there is a warning message in Welsh: "Ar ôl i chi gadarnhau eich cangen mae angen i chi ddewis un o'r cysylltwyr uchod neu ychwanegu un newydd. Cofiwch gadw cofnod newydd neu unrhyw newidiadau trwy wasgu'r eicon disg ar y chwith o'r rhes. Mae'r manylion cysylltu yn bysfig fel bydd modd i ni gysylltu â chi os bydd cwestiwn neu broblem yn codi cyn neu yn ystod eisteddfodau cylch, rhanbarth neu'r genedlaethol."

Rhowch fanylion y person cyswllt i'r gangen a fydd ar gael yn ystod cyfnod yr eisteddfodau Cylch, Rhanbarth ac yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol ei hun. Unwaith yr ydych wedi gwneud hynny fe fydd y cyfan ar y system ac ni fydd angen i chi gyflwyno'r wybodaeth eto, er y bydd modd i chi ychwanegu mwy o enwau ar unrhyw adeg. Yna gwasgwch yr icon  ar chwith y rhes ac yna'r botwm **Dewiswch y Cysylltydd Yma a Gweld y Cystadlaethau** a fydd yn ymddangos ar ôl clicio'r icon.

13. Bydd y tudalen isod yn ymddangos. I ddarganfod cystadlaethau gallwch -




- sgrolio i lawr y rhestr cystadlaethau gan gofio newid tudalen yn ôl yr angen.
- Dewis **Maes** er mwyn gweld cystadlaethau **Llwyfan** neu **Celf, Dylunio a Thechnoleg** yn unig.
- Dewis **Adran Testunau** er mwyn gweld cystadlaethau mewn adran benodol, e.e. i weld cystadlaethu Cerdd Dant, Offerynnol neu Ffotograffiaeth. RHAID dewis Maes yn gyntaf.
- teipio RHAN o enw'r gystadlaethau yn y blwch **Enw Cystadlaethau** (e.e. piano er mwyn rhestru holl gystadlaethau piano)
- teipio rhif y gystadlaethau fel y mae'n ymddangos yn y rhestr testunau yn y blwch **Rhif Rhestr Testunau**.

Cangen Prawf Gwe, Cylch Abergwaun


**Dewiswch gystadlaethau o'r rhestr gan newid tudalen os oes angen neu chwiliwch gan ddefnyddio'r opsiynau isod os gwelwch y Allech chi chwilio gyda rhif rhestr testunau yn unig neu RHAN o enw'r gystadlaethau (e.e. Piano) neu ddewiswch yn ol maes ac a Cofiwch wasgu 'Clirio cyn chwilio o'r newydd' cyn dewis opsiynau chwilio newydd.**

**Gwyrdd = Anfonwyd**

The screenshot shows a search form with the following fields: "Maes" (dropdown menu with "Cystadlaethau Llwyfan" selected), "Adran Testunau" (dropdown menu), "Enw Cystadlaethau" (text input with placeholder "Neu teipiwch unrhyw rhan o enw'r gystadlaethau"), and "Rhif Rhestr Testunau" (text input with placeholder "Neu Rhif y Gystadlaethau"). Below the form is a "Clirio a chwilio o'r newydd" button and a "Chwilio" button. The search results are displayed in a table with columns for page number, title, and a plus icon. The results are: "160 Unawd BI 2 ac iau", "161 Unawd BI 3 a 4", "162 Unawd BI 5 a 6", "163 Deuawd BI 6 ac iau", and "164 Parti BI 6 ac iau (Adran)".

14. I ddewis cystadlaethau, cliciwch  ar y gystadlaethau berthnasol, e.e.  **200 Cyflwyno Alaw Werin Unigol BI 10 a dan 19 oed**. Os oes angen clirio'r chwiliad, dewiswch 

15. Wedi dewis cystadleuaeth, arhoswch am ychydig o eiliadau wrth iddo lwytho ac yna fe fydd blwch yn ymddangos gyda'r geiriau **Dim cystadleuwyr eto** [os ydych eisoes wedi cofrestru cystadleuwyr fe fydd rhif yn cael ei ddangos wrth ymyl enw'r gystadleuaeth a rhestr o'r cystadleuwyr yn ymddangos]. Bydd botwm **Ychwanegu Cystadleuwyr** hefyd yn ymddangos ar y dde.



Bydd y sgrin nesaf yn dibynnu ar y math o gystadleuaeth o dan sylw, sef -

- Cystadlaethau Unigol Syml
- Cystadlaethau Cerdd Dant
- Cystadlaethau Offerynnol
- Cystadlaethau Deuawd
- Cystadlaethau Grŵp, Parti, Côr

### **CYSTADLAETHAU UNIGOL SYML**

16. Cliciwch y botwm **Ychwanegu Cystadleuwyr** er mwyn cofrestru cystadleuydd newydd. Bydd y sgrin isod yn ymddangos:



17. I ddewis aelod o'ch cangen, cliciwch ar y botwm **Cliciwch yma i weld aelodau Cangen** sydd i'r chwith i enw'r gangen. Bydd rhestr debyg i'r isod yn ymddangos:

Chwilio am:  Chwilio Gweld pob un

◀ ▶ Cadw Dewis + Cangen Arall

<input type="checkbox"/>	Enw	Cyfenw	Bl. Ysg.	Rhif Ael.	Dyddiad	Cangen	Rhanbarth
Cliciwch yma i weld aelodau Cangen Prawf Gwe							
<input type="checkbox"/>	Dafydd	Iwan	Bl. 10	W91234	09/12/13	Cangen Prawf Gwe Gwent	
<input type="checkbox"/>	Llwyd	Owen	Bl. 10			Cangen Prawf Gwe Gwent	
<input type="checkbox"/>	Huw	Edwards	Bl. 12			Cangen Prawf Gwe Gwent	
<input type="checkbox"/>	Bryn	Terfel	Bl. 12			Cangen Prawf Gwe Gwent	
<input type="checkbox"/>	Jemeima Nicolas		Bl. 13			Cangen Prawf Gwe Gwent	

◀ ▶ Cadw Dewis + Cangen Arall

18. Ticiwch y blwch ar y chwith i ddewis y cystadleuwyr priodol ac yna dewiswch . Gallwch glicio gan ddewis cynifer o gystadleuwyr ag sydd angen.

19. Ar ôl dewis aelodau drwy dicio'r blwch priodol pwyswch y botwm **Cadw Dewis** , ac fe fydd y system yn creu ac anfon ffurflen unigol i bob un o'r rhai yr ydych wedi'i dewis [Allgofnodi / Logout](#)

Cymorth HAFAN Dewis Cysylltydd × Cystadlaethau ×

- 197 Côr S.A.T.B.14-25 oed (Aelwyd) (dros 40)
- 198 Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl 6 ac iau
- 199 Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl 7, 8 a 9
- 200 Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl 10 a dan 19 oed 2 Ychwanegu Cystadleuwyr

Nifer yn Cystadlu: 2

Dafydd Iwan	Cangen Prawf Gwe	<b>Ffurflen Gystadlu</b>	Canslo'r Ffurflen
Sali Mali	Cangen Prawf Gwe	<b>Ffurflen Gystadlu</b>	Canslo'r Ffurflen


Mae'r lliw gwyrdd yn golygu fod y ffurflen wedi ei hanfon at yr Ysgrifennydd Cylch

20. Os oes angen ychwanegu aelod sydd wedi'i gofrestru mewn cangen arall, cliciwch ar y botwm **+ Cangen Arall** , a bydd y sgrin isod yn ymddangos:

Caniatad Gweld Cangen Arall

Enw Cangen Arall	Eich Enw	Eich Cyfeiriad EBost	Rheswm am y cais
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

**Rhybudd:** Cofnodir defnydd o chwilio aelodau o ganghennau eraill. Os oes angen i chi ddewis aelodau sydd wedi'i cofrestru dan gangen arall ar eich cangen croeso i chi ychwanegu'r canghennau perthnasol uchod gan lenwi eich manylion a'r rheswm - e.e. plant yn yr adran/aelwyd

I ddewis y gangen arall, cliciwch y botwm  ac fe fydd y sgrin isod yn ymddangos:

**Dewis Cangen Arall**

**Chwilio am Ysgol / Cangen**

Ysgol / Cangen:

NEU Rhanbarth

[Clirio chwilio](#)

I ddarganfod y gangen briodol unai teipiwch ran o'r enw (e.e. Mallwyd yn hytrach nag Ysgol Gynradd Bro Mallwyd) yn y blwch Ysgol/Cangen, neu dewiswch Rhanbarth a chliciwch

Bydd sgrin debyg i'r isod yn ymddangos:

[Clirio chwilio](#)  ononym  
(Os byd rhestr o

2 Cangen

IDCangen	Cangen ▲	Tref Cangen	Cod Post Cangen	Rhanbar
<a href="#">Dewis</a>	2119 Cangen Prawf Gwe			Gwent
<a href="#">Dewis</a>	2561 Cangen Prawf2			Gwent

50  Cofnod ar y dudalen

Cliciwch ar [Dewis](#) i ddewis y gangen. Fe fyddwch yn cael eich symud yn ôl i'r sgrin isod:

Enw Cangen Arall	Eich Enw	Eich Cyfeiriad EBost	Rheswm am y cais
<input type="text" value="Cangen Prawf2"/>	<input type="text" value="Arweinydd prawf"/>	<input type="text" value="eisteddfodtechnegol@urdd.o"/>	<input type="text" value="aelod yn yr ysgol"/>

Llenwch eich enw, cyfeiriad e-bost a'ch rheswm dros chwilio aelodaeth cangen arall, (e.e. aelodau gyda'r ysgol) yna pwyswch

Os ydych eisiau gweld manylion cangen arall eto, ail adroddwch y camau uchod.


Ar ôl gorffen, cliciwch ar y groes  yn y gornel uchaf dde i gau'r ffenest, a chliciwch ar y botwm

I gofrestru cystadleuwyr defnyddiwch yr un drefn â phwynt 17.

**CYSTADLAETHAU CERDD DANT:**

21. Cliciwch y gystadleuaeth berthnasol ac yna'r botwm **Ychwanegu Cystadleuydd**. Bydd y ffurflen isod yn ymddangos:

Ffurflen Gystadlu



**Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru**  
FFURFLEN GYSTADLU CYLCH, RHANBARTH AU A CHENEDLAETHOL

Statws: **Ar y gweill**

Cystadleuaeth **244 Unawd Cerdd Dant BI 7 - 9**

Enw'r Gangen **Cangen Prawf Gwe**

Enw Cyswllt  Ffon Cyswllt

Ebost Cyswllt  Ffon Symudol Cyswllt Wythnos yr Eisteddfod

**MANYLION CYSTADLEUWYR**

Dewis Aelodau

Dewiswch Aelodau uchod

Enw'r Cystadleuydd, Grwp, Parti, Côr  **PWYSIG. Gwiriwch os gwelwch yn dda**

Cyweirnod  Dewiswch gyweirnod sy'n cydfynd a rheolau'r rhestr testunau.

22. Gwiriwch fanylion y gangen a chyswllt ac ewch at **MANYLION CYSTADLEUWYR**. Gwasgwch y botwm **Dewis Aelodau** er mwyn gweld rhestr o aelodau'r gangen. Bydd sgrin debyg i'r isod yn ymddangos:

Chwilio am:

<input type="checkbox"/>	Enw	Cyfenw	Bl. Ysg.	Rhif Ael.	Dyddiad	Cangen	Rhanbarth
<input type="checkbox"/>	<b>Cliciwch yma i weld aelodau Cangen Prawf Gwe</b>						
<input type="checkbox"/>	Dafydd	Iwan	Bl. 10	W91234	09/12/13	Cangen Prawf Gwe	Gwent
<input type="checkbox"/>	Llwyd	Owen	Bl. 10			Cangen Prawf Gwe	Gwent
<input type="checkbox"/>	Huw	Edwards	Bl. 12			Cangen Prawf Gwe	Gwent
<input type="checkbox"/>	Bryn	Terfel	Bl. 12			Cangen Prawf Gwe	Gwent
<input type="checkbox"/>	Jemeima Nicolas		Bl. 13			Cangen Prawf Gwe	Gwent

23. Ticiwch y blwch  ar y chwith i ddewis un cystadleuydd. Oherwydd natur y gystadleuaeth a'r angen am gyweirnod i bob cystadleuydd, un cystadleuydd yn unig y gellir ei osod ar bob ffurflen. Rhaid ail adrodd y camau hyn os am gofrestru mwy nac un cystadleuydd i'r cystadlaethau Cerdd Dant. Ar ôl cofrestru cystadleuydd, gwasgwch y botwm **Cadw Dewis**.
24. Bydd enw'r aelod wedyn yn ymddangos yn y blwch **Enw'r Cystadleuydd, Grŵp, Parti, Côr** fel y dangosir isod:

Statws: **Ar y gweill**

Cystadleuaeth **244 Unawd Cerdd Dant Bl 7 - 9**

Enw'r Gangen **Cangen Prawf Gwe**

Enw Cyswllt  Ffon Cyswllt

Ebost Cyswllt  Ffon Symudol Cyswllt Wythnos yr Eisteddfod

**MANYLION CYSTADLEUWYR**

**Dewis Aelodau**

**1 Sali Mali Bl. 9 Cangen Prawf Gwe W91235**

Enw'r Cystadleuydd, Grŵp, Parti, Côr  **PWYSIG. Gwiriwch os gwelwch yn dda**


Cyweirnod

Gwiriwch y blwch enw. Os oes angen addasu, teipiwch y newidiadau yn y blwch.

25. Cliciwch ar fotwm **Cyweirnod** a dewiswch naill ai **Gwreiddiol** neu'r cyweirnod priodol.



26. Ewch i waelod y dudalen, fe fydd yn edrych fel isod:




Naill ai –



- Gwasgwch **ANFON FFURFLEN** – er mwyn anfon y cyfan at yr Ysgrifennydd Cylch
- Gwasgwch **CADW EICH NEWIDIADAU** – bydd y cyfan yn cael ei gadw a bydd angen i chi ei anfon rhyw bryd eto
- Gwasgwch **PEIDIO CADW EICH NEWIDIADAU** i glirio'r ffurflen a pheidio cadw unrhyw newidiadau ers i'r ffurflen gael ei chadw y tro diwethaf.

27. Os ydych yn anfon y ffurflen fe fydd y botwm yn troi'n wyrdd **ANFON FFURFLEN** sy'n brawf bod y cyfan wedi'i anfon at yr Ysgrifennydd Cylch.

28. Cliciwch ar y botwm **CAU'R FFENESTR** er mwyn mynd allan o'r tudalen ac yn ôl i'r rhestr gystadlaethau.



29. Arhoswch am eiliad ac fe fydd enw'r cystadleuydd yn ymddangos o dan y gystadleuaeth ac os ydych wedi'i anfon bydd y botwm yn wyrdd **Ffurflen Gystadlu** hynny yw, wedi'i anfon at yr Ysgrifennydd Cylch. Os ydych wedi Cadw'r cyfan bydd y botwm mewn glas **Ffurflen Gystadlu**

PWYSIG: os nad yw'r enw yn ymddangos cliciwch y gystadleuaeth i'w chau ac yna ei ail agor. Caewch wrth wasgu'r botwm  ac ail agor gyda 

## CYSTADLAETHAU OFFERYNNOL

30. Cliciwch y gystadleuaeth berthnasol ac yna'r botwm **Ychwanegu Cystadleuydd**. Bydd y ffurflen isod yn ymddangos:

Statws: **Ar y gweill**

Cystadleuaeth **214 Unawd Llinynnol Bl 7-9**

Enw'r Gangen **Cangen Prawf Gwe**

Enw Cyswllt  Ffon Cyswllt

Ebost Cyswllt  Ffon Symudol Cyswllt Wythnos yr Eisteddfod

MANYLION CYSTADLEUWYR

Dewiswch Aelodau uchod

Enw'r Cystadleuydd, Grwp, Parti, Côr  **PWYSIG. Gwiriwch os gwelwch yn dda**

MANYLION DARNAU A CHERDDORIAETH HUNAN-DDEWISIAD

1	Teitl	Cyfansoddwr	Cyhoeddwr / Cyhoeddwr CD	Awdur Trefn, Cyfieith. / Artist CD
	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
	Enw Llyfr / Enw CD	Nodiadau / Rhif Trac CD		
	<input type="text"/>	<input type="text"/>		



31. Gwiriwch fanylion y gangen a chyswllt ac ewch at **MANYLION CYSTADLEUWYR**. Gwasgwch y botwm  er mwyn gweld rhestr o aelodau'r gangen. Bydd sgrin debyg i'r isod yn ymddangos:

Chwilio am:

<input type="checkbox"/>	Enw	Cyfenw	Bl. Ysg.	Rhif Ael.	Dyddiad	Cangen	Rhanbarth
<input type="checkbox"/>	Dafydd	Iwan	Bl. 10	W91234	09/12/13	Cangen Prawf Gwe	Gwent
<input type="checkbox"/>	Llwyd	Owen	Bl. 10			Cangen Prawf Gwe	Gwent
<input type="checkbox"/>	Huw	Edwards	Bl. 12			Cangen Prawf Gwe	Gwent
<input type="checkbox"/>	Bryn	Terfel	Bl. 12			Cangen Prawf Gwe	Gwent
<input type="checkbox"/>	Jemeima Nicolas		Bl. 13			Cangen Prawf Gwe	Gwent

32. Ticiwch y blwch  ar y chwith i ddewis un cystadleuydd. Eto, oherwydd natur y gystadleuaeth un cystadleuydd yn unig sydd ar bob ffurflen. Ar ôl cofrestru un cystadleuydd, gwasgwch

Bydd enw'r aelod wedyn yn ymddangos yn y blwch **Enw'r Cystadleuydd, Grŵp, Parti, Côr**.


Llenwch y manylion yn y blychau perthnasol ar y gwaelod - **MANYLION DARNAU A CHERDDORIAETH HUNANDEWISIAD** - ar gyfer nodi'r dewisiadau. Mae gofod ar gyfer dau ddarn. Os oes angen ychwanegu manylion darn(au) eraill, gwasgwch  ar ochr dde. I ddileu rhes, dewiswch y rhes a gwasgwch .

33. Ewch i waelod y dudalen. Naill ai –

- Gwasgwch **ANFON FFURFLEN** – er mwyn anfon y cyfan ar yr Ysgrifennydd Cylch
- Gwasgwch **CADW EICH NEWIDIADAU** – bydd y cyfan yn cael ei gadw a bydd angen i chi ei anfon rhyw bryd eto
- Gwasgwch **PEIDIO CADW EICH NEWIDIADAU** i glirio'r ffurflen a pheidio cadw unrhyw newidiadau ers i'r ffurflen gael ei chadw y tro diwethaf.

34. Os ydych yn anfon y ffurflen fe fydd y botwm yn troi'n wyrdd **ANFON FFURFLEN** sy'n brawf bod y cyfan wedi'i anfon at Ysgrifennydd Cylch.

35. Cliciwch ar y botwm **CAU'R FFENESTR** er mwyn mynd allan o'r tudalen ac yn ôl i'r rhestr gystadlaethau.



36. Os oes unrhyw wall yn y ffurflen bydd angen gwirio'r cynnwys ac ail anfon y cyfan.

### CYSTADLAETHAU DEUAWD

37. Dilynwch yr un drefn i fynd i mewn i'r gystadlaethau. Cliciwch ar y botwm **Dewis Aelodau** er mwyn dewis yr aelodau drwy dicio'r blychau priodol. Gwasgwch **Cadw Dewis** ac fe fydd enwau'r ddeuawd yn ymddangos yn y blwch **Enw'r Cystadleuydd, Grŵp, Parti, Côr**. Ewch i waelod y dudalen a gwasgwch naill ai -

**ANFON FFURFLEN** – er mwyn anfon y cyfan ar yr Ysgrifennydd Cylch neu **CADW EICH NEWIDIADAU / PEIDIO CADW EICH NEWIDIADAU**

### CYSTADLAETHAU GRŴP, PARTI, CÔR


38. Dilynwch yr un drefn i fynd i mewn i'r gystadlaethau. Cliciwch ar y botwm **Dewis Aelodau** er mwyn dewis yr aelodau. Gwasgwch **Cadw Dewis**. Rhaid ichi osod enw'r Parti/Grŵp/Côr yn y blwch priodol.


Bydd y ffurflen yn dangos sawl aelod o'r grŵp, parti, côr yr ydych wedi'u penodi gan gynnwys eilyddion.


39. Ewch i waelod y dudalen a gwasgwch naill ai **ANFON FFURFLEN** – er mwyn anfon y cyfan at yr Ysgrifennydd Cylch neu **CADW EICH NEWIDIADAU / PEIDIO CADW EICH NEWIDIADAU**



## NEWID/DILEU/CANSLO FFURFLENNI

40. Os oes angen dileu ffurflen gystadlu (e.e. cystadleuwr yn tynnu yn ôl) mae'n bosib gwneud hyn o'r rhestr cystadlaethau cychwynnol fel y gweler isod:



41. I ddileu ffurflen sydd heb ei anfon i'r ysgrifennydd cylch, cliciwch ar y botwm  . **BYDD HYN YN DILEU'R FFURFLEN AC NID OES FFORDD O'I GAEL YN ÔL!**

42. I ganslo ffurflen sydd eisoes wedi ei gyrru i'r ysgrifennydd cylch, dewiswch 

Bydd hyn yn achosi i'r eicon  newid i eicon  ac fe fydd yr ysgrifennydd cylch yn cael gwybod.

43. I newid manylion ar ffurflen sydd wedi'i hanfon cliciwch ar y botwm 'DATGLOI', gwneud eich newidiadau ac 'ANFON' y ffurflen eto. Fydd dim modd gwneud hyn ar ôl dyddiad cau y cyfnod gwirio. **Pwysig:** er mwyn newid aelodau ar y ffurflen bydd angen i chi 'CADW' y ffurflen rydych wedi'i 'DATGLOI' a'i ail-hagor a bydd y botymau dewis aelodau yn gweithio.

## CYSTADLAETHAU CELF, DYLUNIO A THECHNOLEG

44. Mae ffurflenni cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg yn gweithio yn union yr yn modd a rhai llwyfan. Bydd ffurflenni unigol yn cael eu hanfon yn awtomatig wrth i chi eu creu. Bydd rhai grwp yn agor er mwyn i chi ychwanegu aelodau arnyh nhw.
45. Trwy ddewis 'Celf. Dylunio a Thechnoleg' o'r opsiwn chwilio 'MAES' ar frig y rhestr cystadlaethu byddwch ond yn gweld y cystadlaethau hynny, neu ellwch chi chwilio yn ol adran, rhif cystadleuaeth neu rhan o enw cystadleuaeth fel gyda unrhyw gystadleuaeth arall.
46. **PWYSIG** - mae'n rhaid i chi osod label swyddogol ar bob darn o waith **cyn** mynd â fe at eich cylch/rhanbarth ar gyfer beirniadu. Cliciwch ar y botwm 'LABELI GWAITH CELF' uwchben rhestr y cystadlaethau fydd yn mynd â chi i dudalen sy'n esbonio'r broses ac yn rhoi dewis i chi weld label pob cystadleuwyr neu ddewis y rhai dych chi eisiau. Bydd y labeli yn agor fel dogfen PDF allwch chi argraffu yn syth neu gadw er mwyn argraffu nes ymlaen.
47. Dylech chi argraffu'r labeli ar bapur (neu gerdyn ysgafn) gwyn. Bydd y rhan fwyaf o'r labeli yn cael eu hargraffu 2 i bob dudalen A4 fel bod e'n hawdd plygu yn ei hanner er mwyn rhywgo yn daclus neu torri gyda siswrn.
48. Rhaid clymu'r / sticio'r label yn sownd i'r gwaith heb guddio'r wybodaeth.

## CYMORTH

49. Os ydych yn profi unrhyw drafferthion neu anhawster yn ystod eich defnydd o'r system fe allwch gysylltu â'r cyfeiriadau e-bost isod:

Unrhyw faterion cystadleuol a gweinyddol (darnau, nifer mewn parti, ayb) cysylltwch ag [eisteddfodgweinyddol@urdd.org](mailto:eisteddfodgweinyddol@urdd.org)

Unrhyw faterion technegol (cyfrineiriau, negeseuon gwall, ayb) cysylltwch ag [eisteddfodtechnegol@urdd.org](mailto:eisteddfodtechnegol@urdd.org)

Unrhyw faterion aelodaeth, cysylltwch ag [aelodaethgweinyddol@urdd.org](mailto:aelodaethgweinyddol@urdd.org)